Y Sycamorwydden unig

Dysgu cyd-fyw / Ymddiriedaeth

Ar gwr y goedwig roedd coed sycamorwydden yn tyfu. Pan ddaeth yr hydref roedd clystyrau o hadau yn tyfu ar bob coeden. Roedd gan bob hedyn ddwy adain. Yn eu plith roedd un hedyn oedd yn teimlo'n well na'r holl hadau eraill. "Pan ddaw f'amser i hedfan mi fydda i yn mynd cyn belled â phosibl o'r lle hwn. Dydw i ddim am fod yn goeden ymhlith cannoedd. Does yna run coeden yn y lle hwn yn mynd i ddweud wrtha i sut i ymddwyn. Na, welwch mohono i yn byw yn y lle diflas hwn. Rwy'n mynd cyn belled ac y medrai oddi yma."

Arhosodd am ddyddiau ac wythnosau am wynt oedd yn ddigon cry i'w yrru cyn belled ag y medrai oddi wrth y coed sycamor eraill. Roedd yr hadau eraill i gyd wedi hedfan i ffwrdd ond roedd yr hedyn balch yn dal i aros ar y goeden. Un bore cododd storm enbyd. Hyrddiodd y gwynt yr hedyn bach i'r entrychion. Aeth i fyny'n uwch ac yn uwch. Chwythodd y gwynt yr hedyn bach dros y fforest, ac i lawr y dyffryn a glaniodd mewn gweirglodd dawel. Roedd wrth ei fodd pan welodd fod y coed eraill i gyd ymhell, bell o'r weirglodd.

Fel daeth y gwanwyn dechreuodd yr hedyn balch egino. Roedd ei wreiddiau'n ymledu ar eu hunion gan nad oedd coed eraill yn cystadlu am ddarn o dir. Tyfodd yr hedyn balch yn goeden sycamorwydden braf. "Rwyf yn tyfu ar fy mhen fy hun," meddai. "Does dim arall i'w gweld o gwbl. Dyna braf yw cael digon o le i dyfu."

Ond yn fuan iawn sylweddolodd y goeden falch, hunanol nad oedd bod ar ei phen ei hun yn fêl i gyd. Coeden unig oedd hi. Doedd ganddi neb i siarad na sgwrsio. Roedd gan y coed eraill, gwmpeini ond roedd hi ar ei phen ei hun. A phan fyddai'r gwynt yn chwythu, yn enwedig yn y gaeaf, byddai'n oer iawn. Doedd dim coed eraill i'w chysgodi a'i gwarchod.

Ond roedd gwaeth i ddod. Byddai plant y pentref yn dod am dro i'r weirglodd. Gan mai hi oedd yr unig goeden yno byddai'r plant yn ei cham-drin. Byddai rhai ohonyn nhw'n torri eu henwau ar ei rhisgl. Yma thraw ar ei rhisgl byddai llythrennau megis GA a PH a HGD. Llythrennau cyntaf enwau rhai o blant yr ardal oedd y rhain. Pan fyddai'r gwanwyn yn dod byddai rhai plant yn torri'r dail oddi ar y goeden. Yn wir byddai rhai o wragedd y pentref yn dod heibio i dorri'r canghennau i wneud coed tân.

Bob blwyddyn byddai'r goeden falch yn cael ei cham-drin. "Nag oes wir," meddai'r goeden wrthi'i hun un diwrnod, "does dim hapusrwydd o fyw ar eich pen eich hun. Petawn i'n cael y dewis eto, mi fuaswn i'n cyd-fyw efo'r coed eraill."

Ond doedd y goeden sycamorwydden ddim yn gallu gwneud dim i wella ei chyflwr. Dyna oedd ei dymuniad – byw ar ei phen ei hun.

O Dduw, helpa fi i ddysgu byw efo pobl eraill. Amen.

- Fyddwch chi weithiau yn teimlo'n unig?
- Ydi bod "ar eich pen eich hun" run fath a "bod yn unig"? Beth yw'r gwahaniaeth?